# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 7 Mai 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(196)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5497 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod nifer y busnesau bach a chanddynt werth ardrethol o hyd at £12,000 yng Nghymru bellach yn 73% o bob busnes;

2. Yn cydnabod y bydd gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb llawn am ardrethi busnes pan fydd Bil Cymru wedi cael Cydsyniad Brenhinol;

3. Yn cydnabod bod cydbwysedd rhwng manwerthwyr y trydydd sector a

manwerthwyr annibynnol yn hanfodol i gynnal y stryd fawr;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Ystyried manteision rhannu lluosydd Cymru yn fusnesau bach a mawr i sicrhau bod Cymru yn unol â'r Alban a Lloegr;

b) Adfywio rhyddhad caledi, sy'n hanfodol i fusnesau bach.

Mae Bil Cymru ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/publications/wales-bill

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 4a) dileu popeth ar ôl 'fusnesau bach a mawr'.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

Ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach i gwmpasu pob busnes â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

Edrych ar ffyrdd o wneud ardrethi busnes yn fwy ymatebol i newidiadau yn amodau'r farchnad, er mwyn sicrhau bod gwerthoedd ardrethol yn adlewyrchu prisiadau cyfredol yn well.

**4 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5498 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw am ddiddymu'r dreth ystafell wely.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod problem tanfeddiannaeth mewn tai cymdeithasol.

2. Yn cydnabod gwaith y Democratiaid Rhyddfrydol yn Llywodraeth y DU o ran sicrhau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i awdurdodau lleol er mwyn helpu i liniaru effaith diwygiadau mewn achosion teilwng unigol.

3. Yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar y bydd y cap ar y swm y gall cynghorau ei wario ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cael ei godi i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol.

4. Yn mynegi pryder ynghylch y rhwystrau a roddwyd yn eu lle gan gynghorau lleol i'r rhai sy'n ceisio gwneud cais am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn a'u methiant i ddyrannu'r holl adnoddau a roddwyd iddynt at y diben hwn mewn da bryd.

5. Yn croesawu'r cynnig a basiwyd yng nghynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol ym mis Medi 2013 yn galw am werthusiad ar unwaith o effaith y cymhorthdal ystafell sbâr, ac yn aros am ganlyniad yr adolygiad annibynnol o'r polisi a gomisiynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sydd ar y gweill.

6. Yn credu y dylai tynnu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn ôl gael ei liniaru drwy eithrio oedolion anabl a phlant anabl y mae angen gofalwr arnynt a'i gymhwyso i denantiaethau newydd y sector cyhoeddus yn unig.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu’r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi:

a) bod prinder tai cymdeithasol ledled y DU, ac yng Nghymru’n arbennig, a bod cael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr yn ymateb dilynol i’r cynnydd mewn rhestrau aros, gorlenwi a digartrefedd cudd sy’n mynd ochr yn ochr â phroblem tanfeddiannu mewn tai cymdeithasol;

b) mai Llywodraeth Lafur y DU, ym mis Ebrill 2008, aeth ati i gael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr am y tro cyntaf ar gyfer y rheini a oedd yn derbyn budd-dal tai yn y sector rhentu preifat;

c) bod arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU wedi cael ei ddarparu ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn o 2013/14 ymlaen gan ganiatáu i awdurdodau lleol dargedu’r rheini sydd ei angen fwyaf;

d) y cyhoeddiad diweddar y bydd y cap ar faint y caiff cynghorau ei wario ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cael ei godi er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol;

e) methiant awdurdodau lleol i ddyrannu’r holl adnoddau a roddwyd iddynt ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn da bryd;

f) yr arweiniad a roddwyd ymlaen llaw i awdurdodau lleol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy’n dweud y dylai pobl anabl sy’n byw mewn llety sydd wedi’i addasu’n sylweddol a’r rheini sy’n ddibynnol iawn ar rwydwaith cefnogi lleol gael eu blaenoriaethu ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn.

**5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**
**NDM5499 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyhoeddi adroddiad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 'Powering Wales' Future'.

2. Yn gresynu bod pleidiau ledled y DU sy'n wleidyddol geidwadol yn parhau i wrthod y dystiolaeth lethol sy'n cadarnhau'r newid yn yr hinsawdd.

3. Yn cydnabod y gellir sicrhau dyfodol carbon isel cynaliadwy drwy newid uchelgeisiol o ran sut rydym yn cynhyrchu ynni.

4. Yn cydnabod bod rhwydwaith grid clyfar ac amrywiol yn hanfodol i sicrhau y gellir diwallu ein hanghenion ynni ar gyfer y dyfodol mewn modd dibynadwy a chynaliadwy.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) adolygu Nodyn Cyngor Technegol 8 i ganiatáu diweddariadau sy'n adlewyrchu gwelliannau technolegol a datblygu Ardaloedd Chwilio Strategol newydd, i annog prosiectau newydd a lleihau crynodiadau presennol;

b) gweithio gyda diwydiant i ddatblygu cynlluniau budd cymunedol rhanbarthol, er mwyn i gymunedau ar hyd coridorau cludiant a grid gael budd o'r buddsoddiadau economaidd sydd ynghlwm wrth ynni adnewyddadwy;

c) sicrhau manteision economaidd mwyaf posibl ynni adnewyddadwy drwy weithio gyda datblygwyr a sefydliadau addysgol i ehangu cadwyni cyflenwi a chanolfannau rhagoriaeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf o beirianwyr a phrentisiaid;

d) archwilio datblygu Canolfannau Ynni Morol i ddarparu amgylchedd diogel i weithgynhyrchu a phrofi technolegau morol sy'n dod i'r amlwg i helpu Cymru i gael mantais gystadleuol;

e) canolbwyntio cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer ymchwil i dechnoleg storio drydanol ar raddfa fawr fel batris;

f) archwilio potensial datblygu cyfleusterau storio pwmp newydd er mwyn gallu storio mwy o ynni at ddefnydd yn ystod oriau brig a sicrhau cyflenwad sefydlog o drydan carbon isel; a

g) datblygu cyngor technegol newydd ar gyfer hollti hydrolig, gan gynnwys profion tyllu, i sicrhau bod diogelwch a diogelu'r amgylchedd yn cyrraedd y safonau uchaf.

Gellir gweld adroddiad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 'Powering Wales' Future' yma:
http://welshlibdems.org.uk/en/document/energy-policy-paper-2014.pdf

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 ar gael yn:

http://cymru.gov.uk/docs/desh/publications/050701techical-advice-note-8-en.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le "Yn nodi bod pobl ym mhob rhan o gymdeithas a fydd yn dal i gwestiynu'r rhesymau sydd wrth wraidd newidiadau yn ein hinsawdd fyd-eang".

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 2, dileu 'pleidiau ledled y DU sy'n wleidyddol geidwadol' a rhoi 'Llywodraeth y DU' yn ei le.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y cyfyngiadau a osodwyd ar gymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym maes ynni.

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys is-bwynt 5b) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

archwilio potensial sefydlu cwmni ynni cyhoeddus, hyd braich, nid er elw i'w

ddosbarthu;

**Gwelliant 5 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu is-bwynt 5g

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

cyllido cynllun ôl-ffitio ledled y wlad i leihau'r defnydd o ynni a sicrhau biliau ynni is i ddefnyddwyr;

**Gwelliant 7 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

cyhoeddi unrhyw ymchwil i ddichonoldeb adeiladu cysylltiad grid rhwng gogledd a de Cymru;

**Gwelliant 8 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi amrywiol fathau o ynni adnewyddadwy, a buddsoddi ynddynt, er mwyn cyflawni'r amcanion allweddol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd ac yn nodi bod digon o geisiadau ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir ar y gweill yn y system gynllunio i fodloni targedau ynni adnewyddadwy'r DU

**Gwelliant 9 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai'r Bil Cynllunio roi mwy o rym i gymunedau lleol dderbyn neu wrthod cynlluniau ynni adnewyddadwy penodol yn ôl yr hyn sydd orau i'w hardal leol.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5496 Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Cost bod yn dlawd

Sut y mae benthycwyr llog uchel a darparwyr eraill yn gwneud i bobl dlawd dalu mwy.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Mai 2014